


# 2023-24

# Llawlyfr Rhieni

# Egwyddorion
# Bro Dur



## Cymreictod



## Hunaniaeth

## Cymuned






## Cyfrifoldeb

YSGOL GYMRAEG Bro Dur BRO DUR

**Cefnogaeth**



Pan ddaw'ch plentyn i Ysgol Gymraeg Bro Dur, fe fydd gofal a chefnogaeth gref iddo/iddi mewn amryw o ffyrdd:

- Tiwtor Dosbarth a fydd yn cynnig pob cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol o'r newydd
- Cydlynydd Blwyddyn a Staff hŷn a fydd bob amser ar gael i drafod gyda rhieni.
- Clybiau Gwaith Cartref a Chlybiau Adolygu Gwaith.
- Clybiau pynciol – e.e. Iechyd a Lles
- Cefnogaeth Llythrennedd a/neu Rhifedd.
- Noson i Rieni yn gynnar yn ystod y tymor cyntaf i drafod ymgartrefu ac unrhyw gefnogaeth neu sylw i faterion penodol sydd angen.
- Athrawon yn anelu at addysgu drwy ddefnyddio arddulliau dysgu'r disgyblion.
- Gosod targedau SMART a thrafodaeth bob hanner tymor gyda'r Tiwtor Dosbarth ar gynnydd tuag at y targedau.
- Anogaeth i ymuno â gweithgareddau allgyrsiol penodol e.e. Côr Blwyddyn, Twrnament Rygbi a Phêl-rwyd Blwyddyn.
- Cynlluniau Clod a Gwobrwyo er mwyn codi cymhelliant a hybu cyrhaeddiad

# Cwricwlwm Blwyddyn 7 Ysgol Gymraeg Bro Dur 2023

Mae'n bleser mawr gennym rannu'r ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn 7 Medi 2023 ac fel ysgol rydym yn falch iawn o'r hyn rydym yn cynnig ar gyfer ein pobl ifanc. Mae ein cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau cyfoethogi a gynlluniwyd er mwyn cyflawni Pedwar Diben y cwricwlwm, sef datblygu ein plant a'n pobl ifanc i fod yn:

· **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**

· **Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**

· **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd**

· **Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Rydym yn benderfynol o ddarparu continwwm dysgu sydd yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn adeiladu ar y cryfderau a'r seiliau a osodwyd gan ein partneriaid ardderchog yn yr ysgolion cynradd. Trwy fenthyg a datblygu sgiliau a strategaethau addysgegol y Cyfnod Sylfaen a CA2 ac ychwanegu arbenigedd pynciol athrawon, gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau'r sylfeini a'r strwythur er mwyn datblygu dysgwyr gydol oes effeithiol ac yn paratoi ein pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol.



# Cynllun Cwricwlwm Blwyddyn 7 2023

| Cwrs | Crynodeb |
|---|---|
| **Amser Aur** | Rhaglen o glybiau gyda ffocws ar ennyn diddordeb, creadigrwydd, rhoi profiadau ehangach a datblygu sgiliau rhyngbersonol gan ganolbwyntio'n benodol ar Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol. Mae'r clybiau yn digwydd ar brynhawn dydd Gwener am sesiynau estynedig dwy awr. Mae cyfle i ddisgyblion ddewis y clybiau y maen nhw'n dymuno ymuno â nhw yn ystod y flwyddyn. |
| **Celfyddydau Mynegiannol** | Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr perfformio Drama, Celf a Cherddoriaeth gan roi pwyslais ar gyd-weithio traws adrannol ar thema / allbwn cyffredin. Mae'n ffocysu ar gyflwyno / cynnyrch ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd gwahoddiad i rieni i ddod mewn i'r ysgol i ddathlu creadigrwydd yn nhymor yr Haf. |
| **Cymraeg** | Cwrs cyfoes sydd yn edrych ar agweddau moesegol, athronyddol i ddatblygu hunaniaeth ac annog eu datblygiad ieithyddol i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben . Bydd cydweithio agos rhwng y gwaith a wneir yn Saesneg ac yn Ieithoedd Tramor Modern i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Chyfathrebu'r disgyblion. |
| **Dyniaethau** | Mae gwersi Dyniaethau yn cynnig cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion archwilio ac ymchwilio profiadau dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach gan ddarganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin. Mae'r Dyniaethau yn cwmpasu hanes, daearyddiaeth a chrefydd gan ddysgu am eu gorffennol, eu presennol a'u dyfodol. |
| **Iechyd a Lles** | Mae hwn yn gwrs sydd yn datblygu Iechyd a Lles mewn modd mwy holistaidd - gan edrych ar yr agweddau corfforol a dealltwriaeth o faeth a'r hyn ydyn ni'n ei fwyta er mwyn byw'n iach. Bydd pwyslais hefyd ar iechyd meddwl, cydbwysedd a pherthnasoedd iach. Mae'r ffocws yn gadarn yma ar ddatblygu unigolion iach a hyderus ond yn ymateb i egwyddorion pob un o'r pedwar diben. |
| **ITM** | Bydd y disgyblion yn cael eu cyflwyno i Ffrangeg am ddau dymor a Sbaeneg am un tymor gyda phwyslais ar ddatblygu cysylltiadau rhwng ieithoedd. Rydym yn anelu i ddatblygu cysylltiad lleol, cyfoes, byd-real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben. |
| **Mathemateg** | Drwy ddatblygu cysylltiad lleol, cyfoes, byd-real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben, bydd y dysgwyr yn datblygu gwydnwch, yn ogystal â phrofi ymdeimlad o lwyddiant a mwynhad wrth iddyn nhw oresgyn yr heriau sy'n codi. Bydd y ffocws ar ddatblygu gweithgareddau mathemategol a rhesymegol yn dysgu'r dysgwyr ac yn herio'r bobl ifanc i beidio â bod ag ofn problemau anghyfarwydd neu cymhleth. |
| **Saesneg** | Cwrs cyfoes sydd yn datblygu hunaniaeth, dealltwriaeth a chysylltiadau lleol, real a Chymreig i ysbrydoli disgyblion fel dysgwyr y Pedwar Diben . Bydd cydweithio agos rhwng y gwaith a wneir yn y Gymraeg ac yn Ieithoedd Tramor Modern i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Chyfathrebu'r disgyblion. |
| **STEM** | Mae STEM yn bwnc sy'n seiliedig ar y syniad o addysgu dysgwyr mewn pedair disgyblaeth benodol - Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Bydd STEM yn Ysgol Gymraeg Bro Dur yn integreiddio'r pedair disgyblaeth trwy amryw o sialensiau ymarferol, heriol a hwyliog. Rhoddir ffocws ar ddatblygu egwyddorion y Pedwar Diben a'r disgyblaethau pynciol o fewn cyd-destun lleol, Cymreig, byd-real. Bydd y ffocws ar ymchwilio chwilfrydig, rhagfynegi a deall ffenomenau sylfaenol a'r sail maen nhw'n osod i ddeall ein bydysawd. Mae ffocws ar blethu sgiliau digidol i'r gwaith gyda ffocws ar drin data a modelu. |



**OFFER**

Offer sylfaenol i ddisgyblion Blwyddyn 7 yw set geometreg (cwmpawd cadarn, dau sgwaren, pren mesur 300 mm a phrotractor), pensil, ysgrifbin (inc neu bêl-bwynt), pensiliau lliw.

Cynghorir disgyblion i beidio â dod ag eiddo drud i'r ysgol.

Ni chaniateir peniau ffelt, Tipp-ex (na hylif tebyg), ffonau symudol, chwaraewyr cerddoriaeth/dyfeisiau smart na gwm cnoi yn yr ysgol.

**App ClassCharts**

Bydd y feddalwedd yn cofnodi cyflawniad, ymroddiad ac ymagwedd eich plentyn at ddysgu. Ar yr App fydd amserlen, gwaith cartref, cyswllt â'r tiwtor personol a gwybodaeth dydd i ddydd mewn amser real.

**TREFN Y DYDD**

**Oriau'r Ysgol**

Mae'r ysgol yn gweithredu amserlen pythefnos – pob dydd mae 5 gwers, 60 munud yr un, ac mae'r diwrnod ysgol yn cynnwys amser i gofrestru, cynnal gwasanaethau, amser egwyl ac amser i ginio.

| Amser<br>Time | Llun – Iau<br>Mon - Thu |
|---|---|
| **08:45** - 09:05 | Cof / Reg |
| 09:05 - 10:05 | 1 |
| 10:05 - 11:05 | 2 |
| 11:05 - 11:25 | Egwyl / Break |
| 11:25 - 12:25 | 3 |
| 12:25 - 13:25 | 4 |
| 13:25 - 14:15 | Cinio / Lunch |
| 14:15 - **15:15** | 5 |

| Amser<br>Time | Gwener<br>Friday |
|---|---|
| **08:45** - 09:05 | Cof / Reg |
| 09:05 - 10:05 | 1 |
| 10:05 - 11:05 | 2 |
| 11:05 - 11:25 | Egwyl / Break |
| 11:25 - 12:25 | 3 |
| 12:25 - 13:15 | Cinio / Lunch |
| 13:15 - **15:15** | "Amser Aur Bl.7 a 8" |

**Presenoldeb**





**ABSENOLDEB DISGYBLION**

Rhaid egluro pob absenoldeb pa hyd bynnag bo'r cyfnod. Rhaid hysbysu'r ysgol naill ai drwy ebost (YsgolBroDurUwchradd@npt.school) neu neges ffôn (01639 502895) ar unwaith pan mae disgybl yn absennol. Gofynnir i ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr (wedi i'r cyfnod gofrestru gau) fynd i'r Swyddfa, lle cofnodir ei enw.

Cynghorir rhieni yn gryf i beidio â myndâ phlant ar wyliau yn ystod tymor

ysgol.



**Bysiau Ysgol**

Trefnir y bysiau yn gyfan-gwbl gan Adran Cludiant Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (01639 763333). Ceir gwybodaeth ynglŷn ag amserau'r bysiau a'r arosfannau priodol oddi wrth yr Adran honno. Cynghorir disgyblion i fod wrth yr arosfan priodol bum munud cyn yr amser swyddogol.

Os digwydd i ddisgybl golli'i fws ar ddiwedd y dydd, dylid mynd yn syth i Swyddfa'r ysgol ac nid i unman arall.

Rhaid i ddisgybl gario'i docyn bws bob dydd er mwyn dangos i'r gyrrwr.

Yn ôl rheolau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, gall disgybl sy'n camymddwyn ar fws ysgol golli'i hawl i gludiant rhad ac am ddim.

Gellid cael copi o lyfryn yr Awdurdod Addysg Cludiant ar Fysiau Ysgol o swyddfa'r ysgol.

**Cinio ysgol**

Darperir cinio iach a maethlon yn Mwyty'r Twyni ac anogir pob disgybl i fanteisio ar y ddarpariaeth hon. Mae gan yr ysgol bolisi o fwyta'n iach ac o hybu iechyd. Defnyddir system caffeteria ac mae gan ddisgyblion ddewis fwydlen 'bwyta'n iach'. Telir yn ddyddiol gan y disgyblion ym Mwyty'r Twyni am y prydau a ddewisir. Mae £2.90 y dydd yn talu am bryd (gosod) digonol, er y gall disgyblion dalu llai neu fwy na'r swm hwn, yn ôl yr hyn a ddewisant. Mae dewis eang o fyrbrydau i'w gael hefyd.


Caniateir i ddisgyblion ddod â brechdanau o gartref i'w bwyta yn ystod yr awr ginio.

Mae modd i ddisgyblion brynu diod (oer neu gynnes) ynghyd â thost a byrbrydau eraill o 8.15am ac yn ystod egwyl y bore.

**Cinio rhad**

Mae ffurflenni ar gael arlein ar wefan Castell Nedd Port Talbot.
https://www.npt.gov.uk/1317
Fe'ch anogir i ymweld â'r wefan hon am fwy o wybodaeth.

# Parent Pay




Mae'r system hon yn golygu nad oes rhaid i ddisgyblion a staff dalu am brydau ysgol gydag arian parod mwyach. Yn hytrach, maent yn prynu eu prydau a byrbrydau drwy ddefnyddio cod biometrig bys wrth y til.  Mae'r system hefyd yn lleihau ciwiau yn ystod amser cinio ac yn darparu prydau ysgol am ddim yn ddienw i ddisgyblion.

Byddwch yn gallu rhoi arian ar gyfrif eich plentyn ar lein gan ddefnyddio carden debit neu credit e.e Visa.

Er mwyn gallu defnyddio'r system rhaid cael llythyr caniatâd biometreg gan rieni.

# Ap School Comms

Mae'r ap Schools Comm yn ein galluogi i gyfathrebu yn uniongyrchol gydag eich tabled, cyfrifiadur neu ffôn symudol.  Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth berthnasol gan gynnwys amserlenni eich plentyn, amserlenni arholiad, cylchlythyron, digwyddiadau a chalendr yr ysgol.  Bydd disgyblion hefyd yn gallu gweld eu hamserlen a digwyddiadau yn yr ysgol.  Ni ydym yn argraffu cylchlythyron a gwybodaeth, felly cofiwch lawr lwytho hwn i'ch teclyn yn rhad ac am ddim, yn yr wythnosau nesaf.

# Gwisg, Adnoddau ac Offer



## GWISG YSGOL

Rhaid i'r holl ddisgyblion wisgo dillad swyddogol yr ysgol. Dylai enw'r plentyn fod ar bob dilledyn. Gofynnir am gymorth rhieni er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol lawn a chywir.

## GWISG YR YSGOL

Lliwiau'r Ysgol: Glas Brenhinol, Gwyrdd Emrallt a Du

**MERCHED**

| **GWISG GAEAF** | |
|---|---|
| **Siwmper:** | Glas brenhinol, swyddogol ('Jerzees') gyda gwddf 'V' â logo'r ysgol arni; enw cyntaf y disgybl ar y siwmper |
| **Trowsus:** | Du, plaen, coes syth. Dim Jîns, dim crops, dim addurniadau h.y dim trwosus ffasiwn |
| **Sgert:** | Du, plaen. Dim mwy na 5cm (2") uwch y ben-glin. Ni chaniateir sgert 'ffasiwn'. |
| **Tei:** | Gwyrdd a glas |
| **Blows:** | Glas golau plaen, cotwm, llewys hir (ni chaniateir blows 'ffasiwn') |
| **Sanau/teits:** | Du |
| **Esgidiau:** | Du, sodlau dim mwy na 4cm. Dim trainers. |
| **Cot:** | Cot ddu blaen |
| **Gwisg tymor yr haf** | |
| Crys polo swyddogol, glas golau gyda bathodyn yr Ysgol;Sgert neu drowsus arferol neu siorts swyddogol yr Ysgol. | |
| **Dillad Chwaraeon i'r Merched** | |
| **Yn y gampfa** | • Top addysg gorfforol (merched)<br>• Siorts glas tywyll neu ddu/legins gyda logo'r ysgol<br>• Trainers |
| **Ar y cae** | • Top addysg gorfforol (merched)<br>• Sgert, siorts neu 'sgort' hoci las tywyll (ni fydd sgort yn gallu cael ei ddefnyddio fel gwisg ysgol haf)<br>• Sanau glas tywyll gyda logo'r ysgol<br>• Tracwisg ddu neu las (mewn tywydd oer) Siwmper ½ sip glas a logo'r Ysgol |

**BECHGYN**

| GWISG GAEAF | |
|---|---|
| **Siwmper:** | Glas brenhinol, swyddogol (‘Jerzees’) gyda gwddf ‘V’ â logo'r ysgol arni; enw cyntaf y disgybl ar y siwmper |
| **Trowsus:** | Du, plaen. Dim Jîns. |
| **Tei:** | Gwyrdd a glas |
| **Crys:** | Glas golau plaen, cotwm, llewys hir |
| **Sanau:** | Du/Llwyd |
| **Esgidiau:** | Du. Dim trainers. |
| **Cot:** | Cot ddu blaen |
| **Gwisg tymor yr haf** | |
| Crys polo swyddogol, glas golau gyda bathodyn yr ysgol; gyda throwsus hir cyffredin Du neu Siorts swyddogol yr ysgol | |
| **Dillad Chwaraeon i’r Bechgyn** | |
| **Yn y gampfa** | • Top addysg gorfforol (bechgyn)<br>• Siorts addysg gorfforol (gyda logo’r ysgol)<br>• Trainers |
| **Ar y cae** | • Crys rygbi dwy ochr<br>• Siorts addysg gorfforol (gyda logo’r ysgol)<br>• Esgidiau rygbi<br>• Sanau glas tywyll â bathodyn yr ysgol arnynt<br>• Tracwisg ddu neu las (mewn tywydd oer)<br>Siwmper ½ sip glas a logo’r Ysgol |

**NODWCH, OS GWELWCH YN DDA :**

**Gwallt**
Rhaid i ddisgyblion fod â steil gwallt addas a derbyniol ar bob adeg. Ni chaniateir toriad na lliw eithafol. Oherwydd diogelwch, cynghorir disgyblion i glymu gwallt hir yn ôl oddi ar eu hwynebau.

**Clust-dlysau ac addurniadau corff**
Caniateir un styden ym mhob clust. Ni chaniateir addurniadau e.e. stydiau neu ddarnau o fetel mewn unrhyw ran arall o’r corff megis y wyneb. Gofynnir i ddisgyblion i dynnu’r fath addurniadau.

**Tapiau enwau**
Fe’ch cynghorir i wnio enw ar bob dilledyn.

# Prynu’r wisg:

## Siop Gwisg Ysgol Gymraeg Bro Dur

Gwefan y cwmni: http://www.sportec.co.uk/contact-us




Mae cwmni lleol Sportec yng Nghastell-Nedd yn gwerthu holl eitemau arbenigol gwisg ysgol a chwaraeon. Gellir prynu ar-lein, neu alw i mewn i'w siop gyfleus yn Uned 5, Stad Ddiwydianol, Abbey Road Industrial Estate, Castell Nedd, SA10 7DN.

Gellir yn ogystal gael y wisg wedi'i anfon i'r ysgol (gwasanaeth casglu am ddim) neu gael y dillad wedi'i anfon i'r cartref (cost ychwanegol).

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr ysgol:
http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru

**GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL**

Mae gan yr ysgol fywyd cymdeithasol cyfoethog ac amrywiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm academaidd. Bydd Amser Aur ar brynhawn dydd Gwener yn rhoi cyfle i ddisgyblion Bl7 a 8 gymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau allgyrsiol o'u dewis nhw.



Mae gan yr ysgol raglen lawn o weithgareddau chwaraeon a chelfyddydol. Cynhelir hefyd Glwb Gwaith Cartref a Chlybiau Gwaith Cwrs i hybu cynnydd ym mhynciau'r cwricwlwm.

Ymhlith y chwaraeon  a drefnir gan y maes Iechyd a Lles y mae rygbi, hoci, criced, pêl-rwyd, traws-gwlad, athletau, pêl- droed,  gymnasteg, pêl- fasged, pêl-fâs a badminton. Mae gan yr ysgol adnoddau chwaraeon o'r radd flaenaf gan gynnwys Neuadd Chwaraeon, cae pob tywydd ac ardan chwaraeon aml-bwrpas.



Anogir disgyblion i ddefnyddio'r cyfleusterau a ddarperir yn ganolog gan yr A.A.Ll. yn y celfyddydau (awduron a chrefftwyr preswyl), addysg yr amgylchedd a chwaraeon.









# Blwyddyn Academaidd 2023-24

| Tymor | Dechrau'r Tymor | Gwyliau Hanner Tymor | | Diwedd Tymor |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | |
| **Hydref 2023** | Dydd Gwener 1 Medi (Diwrnod HMS) | Dydd Llun 30 Hydref | Dydd Gwener 3 Tachwedd | Dydd Gwener 22 Rhagfyr |
| **Gwanwyn 2024** | Dydd Llun 8 Ionawr | Dydd Llun 12 Chwefror | Dydd Gwener 16 Chwefror | Dydd Gwener 22 Mawrth |
| **Haf 2024** | Dydd Llun 8 Ebrill | Dydd Llun 27 Mai | Dydd Gwener 31 Mai | Dydd Llun 19 Gorffennaf |

## Dyddiadau Pwysig i Flwyddyn 7

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Medi 4 | Dechrau Tymor Bl7 |
| Hydref 18 | Noson Rieni gyda Thiwtoriaid Blwyddyn 7 |
| Rhagfyr 21 | Adroddiad Interim |
| Ebrill 25 | Noson Rieni gydag Athrawon Pwnc |
| Gorffennaf 12 | Adroddiad Llawn |












**Sut i gysylltu â'r Ysgol:**

Prif swyddfa: ysgolbroduruwchradd@npt.school

Pennaeth Cynnydd Bl 7
Miss Angharad Ellis
e-bost : ellisa137@hwbcymru.net

Pennaeth Cynorthwyol, Cyd-lynydd Trosglwyddo:
Miss Kath Jones
e-bost: JonesK1228@hwbcymru.net

CADY: Miss Carys Hughes
e-bost: HughesC932@hwbcymru.net

Diprwy Bennaeth: Miss Sioned Jones
e-bost: JonesS1954@hwbcymru.net

Pennaeth: Mrs Laurel Davies
e-bost: DaviesL1404@hwbcymru.net

**Croeso i Ysgol Gymraeg Bro Dur.**
**Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi dros y blynyddoedd nesaf.**

YSGOL GYMRAEG
Bro Dur
BRO DUR

# Gwerthoedd

# Bro Dur



## Cymreictod



## Parch

## Cwrteisi




## Arwain



YSGOL GYMRAEG BRO DUR

# YMUNWCH A NI - JOIN US

RHIENI AC ATHRAWON YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD I WELLA ADDYSG Y PLANT RYDYM I GYD YN CARU

Bro Dur

# CRHA

## YSGOL GYMRAEG BRO DUR

# PTA

Os oes diddordeb gennych cysylltwch a / If interested please contact: WilliamsonB6@hwbcymru.net